

# Cynllun Gwaith y Fforwm Cydwethredu ar Reoleiddio Digidol 2025/26

Ebrill 2025



Digital Regulation Cooperation Forum



# Cynnwys

3	Rhagair y Cadeirydd
5	Cyflwyniad
7	Parhau i Gyflawni ein Gweledigaeth Tair Blynedd 2024-2027
8	Paratoi Cynllun Gwaith eleni
9	Cynllun Gwaith 2025/26
11	<b>Datgloi Arloesedd a Thwf Economaidd</b>
11	Arloesi
11	Deallusrwydd Artiffisial
12	Hunaniaeth Ddigidol
13	Data Clyfar
13	Sganio'r Gorwel
14	Diogelu Data a Chystadleuaeth
15	Cydweithio o dan y Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol
17	<b>Diogelu Pobl Ar-lein</b>
17	Pensaernïaeth Dewis Ar-lein
17	Twyll a Sgamiau
18	Diogelwch Ar-lein a Diogelu Data
18	Rheoleiddio Gwasanaethau Ariannol a Diogelu Data
20	<b>Meithrin Gallu'r Rheoleiddiwr</b>
20	Deallusrwydd Artiffisial Rheoleiddiol a Datrysiadau Digidol
20	Sgiliau a Galluoedd
20	Rhannu Gwybodaeth
21	<b>Ymgysylltu</b>
21	Rheoleiddwyr
21	Diwydiant a chymdeithas sifil y D
21	Y Llywodraeth a'r Senedd
22	Ymgysylltu Rhyngwladol

## Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bosibl i ddeallusrwydd artiffisial a thechnolegau chwyldroadol gael effaith fawr ar ein cymdeithas a'n heconomi. Rydym eisoes yn gweld sut gall deallusrwydd artiffisial chwyldroi gweithrediadau busnesau a llywodraeth - gan ddatgloi capasiti cynhyrchiol, sy'n caniatáu i bobl ganolbwyntio ar waith mwy effeithiol ac yn arbed arian i drethdalwyr. Mae camau breision mewn cyfrifiadura cwantwm yn parhau i wthio'r ffin uwchgyfrifiadura gyda chyfleoedd enfawr i gefnogi gofal iechyd, canfod cyffuriau, a dyfodol deallusrwydd artiffisial datblygedig. Ac mae cynnydd Data Clyfar yn rhoi'r cyfle i ddefnyddwyr ac i fusnesau gael mwy o reolaeth dros eu gwybodaeth, gan alluogi dewisiadau hawdd a hwylus sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth a mynediad at gynnyrch arloesol ar draws sectorau fel cyllid, ynni a thelegfathrebiadau.



Mae bachu ar y cyfleoedd hyn, a'r manteision y gallant eu cynnig i'r DU, yn gofyn am amgylchedd rheoleiddio clir a chymesur – amgylchedd lle mae gan fusnesau'r hyder i fuddsoddi ac i arloesi, ac amgylchedd lle mae gan ddefnyddwyr yr hyder i fabwysiadu ac i ymgysylltu â thechnoleg newydd. Ar hyn o bryd, mae'r holl reoleiddwyr yn ystyried sut gallant gyfrannu at yr amgylchedd hwn ar yr un pryd â chynnal buddiannau dinasyddion y DU. Mae'r her yn hynod amlwg yn y gofod digidol, lle mae technolegau'n mynd y tu hwnt i ffiniau a chylchoedd gwaith traddodiadol, gan gynyddu cymhlethdod ac ansicrwydd. Dyma lle mae angen y Fforwm Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol (DRCF).

Mae'r Fforwm yn gallu cefnogi busnesau a defnyddwyr drwy gydlynw a chydweithio i reoleiddio'r digidol yn gymesur gan ganolbwyntio ar gefnogi arloesedd a thwf ar yr un pryd â chynnal ymddiriedaeth defnyddwyr. Mae ein gweledigaeth tair blynedd yn nodi sut rydym yn bwriadu cyflawni'r genhadaeth hon; yn benodol, helpu'r DU i fod yn lle deniadol i arloesi, sef thema fy nghyfnod fel cadeirydd.

Mae rheoleiddio digidol yn parhau i esblygu'n gyflym. Ers ein Cynllun Gwaith 2024/25, mae rheoliadau diogelwch ar-lein wedi dod i rym, mae'r ymchwiliadau strategol cyntaf i Statws y Farchnad wedi cael eu lansio o dan y drefn cystadleuaeth marchnadoedd digidol newydd, ac mae'r Bil Data (Defnyddio a Mynediad) (DUA) wedi dechrau ei hynt drwy'r Senedd. Yn y cyd-destun hwn, mae'r llywodraeth wedi datgan yn glir ei chenhadaeth i sbarduno twf ar draws y DU drwy Strategaeth Ddiwydiannol fodern a Chynllun Gweithredu Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial. Mae'r naill a'r llall yn pwysleisio rôl ganolog technolegau digidol ac uwch.

Mae'r Fforwm yn cydnabod bod cydlynw'r dirwedd reoleiddio gymhleth yn ffactor pwysicach fyth er mwyn i'r DU gyflawni'r nodau hyn. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd ar draws ein cylchoedd gwaith i gydweithio, i arloesi ac i ddarparu'r eglurder a'r sicrwydd angenrheidiol i fusnesau ac i fuddsoddwyr.

Byddwn yn defnyddio ein harbenigedd a'n profiad cyfunol i gefnogi'r llywodraeth i gyflawni ei hamcanion polisi, yn enwedig defnyddio deallusrwydd artiffisial a strategaeth ddiwydiannol i ddatgloi arloesedd digidol, cynhyrchiant a thwf economaidd. Byddwn yn parhau â'n dull rhyngwladol arloesol o gydlynu rheoleiddiol, gan ddelio â'r dirwedd fyd-eang sy'n esblygu drwy rannu arferion gorau a dysgu gwersi gan ein cymheiriaid tramor. Ac – oherwydd bod ymgysylltu a gwranddo yn hanfodol – bydd y Fforwm yn adeiladu ar ei hanes llwyddiannus o allgymorth ac ymgysylltu â diwydiant, llywodraeth, y Senedd a chymdeithas sifil.

Fel Cadeirydd newydd y Fforwm, mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Gwaith 2025/26 y Fforwm sy'n cynnwys rhagor o fanylion am ein cynlluniau dros y flwyddyn i ddod. Mae hyn yn cynnwys gwaith cyffrous mewn meysydd sy'n cynnwys hunaniaeth ddigidol, yr economi data a Data Clyfar, ymchwil ar dwf digidol ac economaidd, a chymorth rhagweithiol parhaus i arloesi gan ddefnyddio'r Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol. Rwyf yn hyderus y bydd aelodau'r Fforwm yn parhau i weithio'n agos ac yn gynhyrchiol gyda'i gilydd i gyflawni ein nod sef cael ecosystem rheoleiddio digidol sy'n cefnogi arloesedd a thwf economaidd yn effeithiol.

Sarah Cardell

Prif Swyddog Gweithredol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Chadeirydd y Fforwm  
Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol

# Cyflwyniad

Mae'r Fforwm yn dod â phedwar o gyrff rheoleiddio'r DU at ei gilydd - yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, y Swyddfa Gyfathrebiadau (Ofcom), Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol - i gydlynu eu dull rheoleiddio digidol er budd pobl a busnesau ar-lein. Fel fforwm anstatudol, rydym yn galluogi'r gyrff rheoleiddio sy'n aelodau i gydweithio ar faterion rheoleiddio digidol cyffredin ac sy'n gorgyffwrdd. Prif nodau'r Fforwm yw gwella cydlyniad rheoleiddiol, meithrin cydweithio ar heriau cyffredin, ac adeiladu arbenigedd ar y cyd i reoleiddio'n effeithiol.

Ochr yn ochr â hyn, y llynedd fe wnaethom nodi ein gweledigaeth tair blynedd a oedd yn cynnwys pum prif elfen:

- Diogelu a grymuso pobl ar-lein
- Datgloi arloesedd digidol a thwf economaidd
- Cefnogi effeithiolrwydd rheoleiddwyr
- Arwain trafodaethau yn y wlad hon ac yn rhyngwladol
- Rhagweld datblygiadau yn y dyfodol

Mae cydweithio rheoleiddiol yn dal yn gatalydd pwysig ar gyfer ffocws hanfodol y DU ar dwf ac arloesedd yn y sector digidol. Mae pob rheoleiddiwr wedi nodi ei ddull gweithredu ei hun i hybu twf gan gyfeirio at weithgareddau'r Fforwm yn y gorffennol a gweithgareddau parhaus y Fforwm.<sup>1</sup> Roedd y rheoleiddwyr wedi tynnu sylw at sut maent yn darparu cymorth busnes ystyrlon gan gynnwys ar gyfer arloesi, datgloi marchnadoedd, canfod cyfleoedd i dyfu, a lleihau costau rheoleiddio i gwmnïau.

Ym mis Ionawr 2025, roedd Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesedd a Thechnoleg (DSIT) wedi nodi gweledigaeth i fabwysiadu deallusrwydd artiffisial sy'n cynnwys sbarduno twf economaidd, creu swyddi sy'n addas i'r dyfodol, a thrawsnewid bywyd bob dydd. Cafodd y Bil DUA ei gyflwyno ym mis Hydref 2024 ac mae'n datgloi llwybrau newydd i arloesi drwy ddeddfwriaeth Data Clyfar a gwasanaethau hunaniaeth ddigidol diogel, gan sicrhau bod ymddiriedaeth a diogelu data yn dal wrth galon hynny. Yn y cyfamser, mae'r drefn cystadleuaeth marchnadoedd digidol, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2025, yn agor cyfleoedd i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ddiogelu buddiannau defnyddwyr a hyrwyddo arloesedd a buddsoddiad yn ecosystem technoleg y DU. Mae gweithredu'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein, sy'n golygu bod cwmnïau sy'n cynnig gwasanaethau ar-lein yn gyfrifol yn gyfreithiol am gadw defnyddwyr yn ddiogel, a dyletswyddau a gweithgareddau'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â marchnadoedd ariannol digidol, yn golygu bod y DU yn arweinydd byd-eang ym maes arloesi digidol.

---

1 [Ofcom](#), [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#), yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r [Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd](#)

Bydd y Fforwm yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o egluro sut mae'r rheoliadau hyn yn rhyngweithio, gan symleiddio cydymffurfedd er mwyn lleihau'r baich ar fusnesau a hyrwyddo amgylchedd teg a chystadleuol i gwmnïau digidol ar draws yr economi. Mae'r ddogfen hon yn nodi'n gyntaf sut byddwn yn parhau i gyflawni ein gweledigaeth tair blynedd, ac yna'n nodi sut roeddem wedi casglu gwybodaeth am lle dylai'r Fforwm ganolbwyntio ei waith dros y flwyddyn, cyn amlinellu ein prosiectau a'n gweithgareddau ar gyfer 2025/26.

# Parhau i Gyflawni ein Gweledigaeth Tair Blynedd 2024-2027



Eleni, bydd gweithgareddau ein Cynllun Gwaith yn cefnogi ein gweledigaeth tymor hirach drwy sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu a'u grymuso ar-lein drwy atal twyll, mentrau diogelwch ar-lein, a hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu a defnyddio deallusrwydd artifisial yn gyfrifol.

Byddwn yn meithrin arloesedd digidol a thwf economaidd, drwy gefnogi datblygu cynnyrch a gwasanaethau arloesol, yn ogystal â chynnull ar hunaniaeth ddigidol.

Bydd effeithiolrwydd y rheoleiddwyr yn cael ei gryfhau drwy gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a galluoedd deallusrwydd artiffisial rheoleiddwyr, a chysoni materion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein, diogelu data, a chystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol.

Bydd y Fforwm yn parhau i gydweithio â rheoleiddwyr domestig a rhyngwladol, i feithrin cydweithrediad rheoleiddiol byd-eang a chyfrannu ymhellach at arweinyddiaeth meddwl ar faterion digidol.

Yn olaf, bydd rheoleiddwyr y Fforwm yn aros ar y blaen i ddatblygiadau digidol yn y dyfodol ac yn sicrhau bod gennym y ddealltwriaeth i addasu i dirwedd dechnolegol sy'n esblygu drwy sganio'r gorwel, tueddiadau arloesi ac ymchwil technoleg ddatblygol – gan gynnwys i ddyfodol seiberddiogelwch, deallusrwydd artiffisial asiantol a Data Clyfar.

## Paratoi Cynllun Gwaith eleni

Ym mis Hydref 2024, fe wnaethom gyhoeddi [cais am fewnbwn](#) i gasglu safbwyntiau am lle dylai'r Fforwm ganolbwyntio ei waith yn 2025/26. Cawsom 47 o ymatebion o amrywiaeth o sectorau a diwydiannau. Roedd yr ymatebwyr yn pwysleisio gwerth y Fforwm yn gyson ac yn tynnu sylw at feysydd y gallai ganolbwyntio arnynt – gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, twf, twyll a sgamiau, hunaniaeth ddigidol a phensaerniaeth dewis ar-lein.

Fe wnaethom ystyried y safbwyntiau hyn wrth ddatblygu ein cynllun gwaith, a drwy gydol y ddogfen hon rydym yn nodi lle rydym wedi bwrw ymlaen ag awgrymiadau o'r cais am fewnbwn a pham. Bydd yr holl awgrymiadau a ddaeth o'r cais am fewnbwn, p'un a ydynt wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwaith hwn ai peidio, hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o broses cynllunio gwaith y flwyddyn nesaf (2026/27).

---

<sup>2</sup> Daeth yr ymatebion o'r sectorau canlynol: Diwydiant (51%), Cymdeithas Sifil a'r Byd Academaidd (41%), Rheoleiddwyr (6%) a'r Llywodraeth (2%).



# Cynllun Gwaith 2025/26

Dyma'r pynciau y bydd y Fforwm yn gweithio arnynt yn 2025/26. Ar ben hynny, mae'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau dwyochrog (gweithgareddau sy'n cynnwys dau o'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau) ar wahanol agweddau ar reoleiddio digidol, gyda rhai enghreifftiau allweddol wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.



Gan adeiladu ar waith y llynedd, fel y nodir yn ein Hadroddiad Blynyddol, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd lle mae'r Fforwm wedi cael yr effaith fwyaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sicrhau cysondeb wrth roi deddfwriaeth ddigidol newydd ar waith a hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu a defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn modd cyfrifol;
- cydweithio i gefnogi busnesau a sefydliadau arloesol;
- sganio'r gorwel mewn technolegau datblygol, gan gynnwys (systemau) deallusrwydd artiffisial asiantol;
- cynyddu sgiliau a galluoedd rheoleiddio;
- hyrwyddo cystadleuaeth; a
- gwella diogelwch i ddefnyddwyr gwasanaethau digidol a galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus, drwy gyflawni gwaith ar y cyd mewn meysydd fel pensaernïaeth dewis ar-lein a thwyll.

Rydym wedi categorio ein prosiectau a'n gweithgareddau ar sail eu prif sbardun yn ein gweledigaeth. Ym mhob un o'n gweithgareddau, mae'r Fforwm yn dal wedi ymrwmo i feithrin arloesedd buddiol i ddefnyddwyr y DU ac i'r cyhoedd, gan gefnogi cynnydd economaidd mewn ffordd sy'n ddiogel, yn deg ac yn gyfrifol.

# Datgloi Arloesedd a Thwf Economaidd

## Arloesi

Mae gwasanaethau arloesi rheoleiddiol yn gallu helpu busnesau i ddod â datblygiadau newydd i'r farchnad yn fwy effeithlon drwy roi arweiniad, cymorth ac amgylcheddau profi diogel i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd. Mae gwasanaethau arloesi traws-reoleiddiol yn symleiddio'r cymorth hwn, gan symleiddio'r gwaith o ymgysylltu â'r dirwedd reoleiddio a hybu goruchwyliaeth gydlynol o dechnolegau datblygol.

I'r perwyl hwn, cydweithiodd y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm y llynedd i dreialu'r Hyb Deallusrwydd Artiffisial a Digidol, gwasanaeth sy'n cynnig cyngor anffurfiol i arloeswyr. Ar ôl cwblhau'r cynllun peilot ym mis Chwefror, byddwn yn gorffen ei werthuso ac yn cyhoeddi astudiaethau achos terfynol, gan alluogi mynediad at wybodaeth gan y rheoleiddwyr ar gyfer cynulleidfa ehangach o arloeswyr. Un ffocws allweddol eleni yw adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o beilot yr Hyb, gan sicrhau bod y Fforwm a'r rheoleiddwyr sy'n aelodau ohono'n gallu cefnogi arloeswyr yn y ffordd orau i ddarparu cynnyrch a gwasanaethau newydd yn gyfrifol ac yn hyderus.

Ar ben hynny, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cydweithio â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn ei Labordy Deallusrwydd Artiffisial eleni. Lanswyd y Labordy yn gynnar yn 2025 gyda'r nod o gyfrannu at sicrhau bod y DU yn arweinydd ym maes mabwysiadu deallusrwydd artiffisial mewn marchnadoedd ariannol. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn hybu mabwysiadu egwyddorion diogelu data drwy ddyluniad wrth i ddeallusrwydd artiffisial ddod yn fwy cyffredin mewn gwasanaethau ariannol. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i gwmnïau ddeall sut mae bodloni eu gofynion diogelu data ar yr un pryd â chynyddu ymddiriedaeth defnyddwyr - ac felly'r nifer sy'n defnyddio cynnyrch a gwasanaethau arloesol.

## Deallusrwydd Artiffisial

Fel grŵp o reoleiddwyr, rydym yn awyddus i wireddu'r manteision sydd gan ddeallusrwydd artiffisial i'w cynnig, sy'n cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial y llywodraeth. Rydym yn gwybod bod eglurder a chysondeb o ran sut gallai'r rheoliadau presennol fod yn berthnasol i ddeallusrwydd artiffisial ar draws y gwahanol sectorau yn bwysig i hyder y diwydiant a chanfyddiadau o'r DU fel lle i ddechrau ac i dyfu busnes deallusrwydd artiffisial – ac mae rôl glir i'r Fforwm o ran cefnogi hyn.

Bob blwyddyn, mae ymatebwyr i'r cais am fewnbwn yn gofyn i'r Fforwm barhau i weithio ar ddeallusrwydd artiffisial, sydd nawr yn torri ar draws llawer o'n gweithgareddau – gan gynnwys sganio'r gorwel, technolegau rheoleiddio a goruchwyllo, twyll a sgamiau, pob un wedi'i nodi mewn adrannau diweddarach.

Ar gyfer 2025/26, gofynnodd ymatebwyr i'r cais am fewnbwn am ffocws ar gysondeb rheoleiddiol mewn deallusrwydd artiffisial a sicrwydd deallusrwydd artiffisial, gan ein hannog i weithio gyda grŵp ehangach o reoleiddwyr i sicrhau cysondeb. Rydym wedi ystyried y cynigion hyn wrth lunio gweithgareddau ein prosiect deallusrwydd artiffisial.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Sefydlu fforymau pwrpasol i gyfnewid gwybodaeth am raglenni a datrysiadau deallusrwydd artiffisial newydd gan gynnwys cyfryngau synthetig a ffugiadau dwfn, systemau a sicrwydd asiantol, gan gyhoeddi diweddariadau cyfnodol.
- Datblygu ein dealltwriaeth ar y cyd o sut gallai trefniadau rheoleiddio ein gilydd fod yn berthnasol i ddeallusrwydd artiffisial; a gweithio i ganfod ac i ddatrys unrhyw wrthdaro.
- Adeiladu ar ein hymchwil i'r farchnad archwilio trydydd parti drwy barhau i rannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr ar archwilio deallusrwydd artiffisial drwy ein grŵp mewnol ar gyfer Rhannu Sgiliau. Byddwn yn nodi cyfleoedd i ddefnyddio gwybodaeth arbenigwyr allanol yn y ffrwd waith hon.
- Cynnal cyfarfod bwrdd crwn gydag arweinwyr y diwydiant gwasanaethau ariannol i ddatblygu ymhellach ein dealltwriaeth o sut mae cwmnïau'n gweld heriau ac ansicrwydd rheoleiddiol mewn perthynas â mabwysiadu deallusrwydd artiffisial ac arloesi ehangach, a sut gall Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol weithio gyda'i gilydd gyda'r diwydiant i ddarparu mwy o sicrwydd rheoleiddiol a chefnogi twf.

## Hunaniaeth Ddigidol

Gallai hunaniaeth ddigidol ddiogel a saff helpu pobl i gael gafael ar wasanaethau'n fwy effeithlon a helpu i bontio'r bwlch digidol. Roedd amrywiol ymatebion i'r cais am fewnbwn wedi sôn am hunaniaeth ddigidol fel maes o ddiddordeb, gan sôn am bwysigrwydd cydweithio rhwng y rheoleiddwyr sy'n aelodau o'r Fforwm ac endidau eraill gan gynnwys y Swyddfa Hunaniaethau a Phriodoleddau Digidol (OfDIA).

Gan adeiladu ar waith blaenorol ym maes [hunaniaeth ddigidol](#), a'r trafodaethau a ddechreuwyd yn nigwyddiad Gorwel Digidol y Fforwm a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2025, bydd y Fforwm yn cynnull symposiwm gyda'r diwydiant, rheoleiddwyr, y llywodraeth a rhanddeiliaid ehangach i barhau â'r trafodaethau am ymddiriedaeth, rhyngweithredu, hygyrchedd a chystadleuaeth. Byddwn hefyd yn cydweithio i dynnu sylw at gyfleoedd i fabwysiadu'n ehangach, gan sicrhau bod gwasanaethau hunaniaeth yn cael eu gweithredu'n ddiogel ac yn gyfrifol. Byddwn yn cadw llygad ar feysydd fel waledi digidol a sicrwydd oedran, a byddwn yn parhau i rannu ein gwybodaeth i gefnogi cydlynid rheoleiddiol.

## Data Clyfar

Mae gan Ddata Clyfar (rhannu data cwsmeriaid a busnesau'n ddiogel â darparwyr trydydd parti awdurdodedig) botensial enfawr i hyrwyddo cystadleuaeth ar draws sectorau, datgloi cynnyrch a gwasanaethau newydd i ddefnyddwyr, ac ysgogi twf.

Mae Data Clyfar yn debygol o gynnwys pob un o'r pedwar corff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm. Rhagwelir y bydd Data Clyfar yn golygu bod modd creu fframwaith rheoleiddio hirdymor ar gyfer bancio agored yn y DU, a bydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer cynlluniau data clyfar mewn sectorau eraill o'r economi. Roedd Ofcom wedi [ymgyngori](#) ar gyfathrebiadau agored yn 2023. Bydd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod cynlluniau Data Clyfar yn diogelu hawliau gwybodaeth pobl, gan hyrwyddo ymddiriedaeth a thryloywder.

Roedd Ofcom wedi [ymgyngori](#) ar gyfathrebiadau agored yn 2023. Bydd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ran bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod cynlluniau Data Clyfar yn diogelu hawliau gwybodaeth pobl, gan hyrwyddo ymddiriedaeth a thryloywder.

Bydd gweithgareddau dwyochrog sy'n ymwneud â Data Clyfar rhwng y cyrff rheoleiddio sy'n aelodau yn parhau yn 2025/26. Mae hyn yn cynnwys yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y cyd yn archwilio cyllid agored drwy lens sganio'r gorwel, gan adeiladu ar ymchwil a gomisiynwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ar fodolau posibl. Ar ben hynny, bydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn parhau i ymgysylltu ar ddiogelu ac ar ddefnyddio data defnyddwyr - er mwyn mabwysiadu bancio agored gymaint â phosibl a gweithio at fentrau rheoleiddio a chyngor i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cyllid agored.

Ochr yn ochr â gweithgareddau dwyochrog, bydd y Fforwm yn cynnal adolygiad o ddyfodol economi sy'n cael ei harwain gan ddata a'r cyfleoedd y gallai hyn eu cynnig, gan weithio mewn partneriaeth â grŵp ehangach o reoleiddwyr lle bo hynny'n berthnasol. Bydd hyn yn cyfrannu at baratodau rheoleiddwyr i weithredu Data Clyfar.

## Sganio'r Gorwel

rheoleiddiol, yn helpu rheoleiddwyr i addasu'n rhagweithiol i'r dirwedd dechnolegol sy'n newid ac yn rhoi ymwybyddiaeth gynnar i'r diwydiant o oblygiadau rheoleiddiol a allai fod yn berthnasol i ddylunio ac i fabwysiadu eu datblygiadau arloesol. Eleni, bydd y prosiect yn canolbwyntio ar dri maes sy'n cael sylw'n aml mewn ymatebion i'r cais am fewnbwn: (systemau) deallusrwydd artifisial asiantol, Data Clyfar a seiberddiogelwch.

## Deallusrwydd Artiffisial Asiantol

Bydd y ffyrdd o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn parhau i esblygu dros y flwyddyn nesaf, gan arwain at gyfleoedd a risgiau newydd i ddiwydiannau sy'n cael eu rheoleiddio gan aelodau'r Fforwm. Ymysg y datblygiadau arloesol ar y gorwel mae systemau asiantol sy'n gallu cyflawni tasgau cymhleth yn annibynnol. Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr i'r cais am fewnbwn i ni archwilio deallusrwydd artiffisial asiantol ac effaith bosibl rheoleiddio ar ei ddatblygiad a'i fabwysiadu. Eleni, bydd y Fforwm felly'n archwilio ecosystem bosibl deallusrwydd artiffisial asiantol yn y dyfodol i ddeall sut gallai ddatblygu a'r goblygiadau rheoleiddiol i reoleiddwyr a'r diwydiant, gan gynhyrchu allbwn allanol yn 2026.

## Seiberddiogelwch

Mae'r holl wasanaethau digidol yn dibynnu ar rwydweithiau diogel, ac mae seiberddiogelwch yn dod yn bwysicach wrth i gymdeithasau ac economïau ddod yn fwy rhyng-gysylltiedig. Ym mis Gorffennaf 2024, cyhoeddodd Araith y Brenin y Bil Seiberddiogelwch a Seibergadernid yn 2025 i wella amddiffynfeydd seiber y DU a diogelu ein gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Bydd hyn yn dod â seiberddiogelwch i'r amlwg mewn trafodaethau am ddiogelwch ar-lein, gan adeiladu ar waith Ofcom ar faterion diogelwch y rhwydwaith. Oherwydd hyn, bydd y Fforwm yn cynnull ac yn ymgysylltu'n allanol i hwyluso trafodaethau ar draws y diwydiant ar seiberddiogelwch yn ystod mis Hydref 2025 (Mis Ymwybyddiaeth o Seiberddiogelwch).

## Diogelu Data a Chystadleuaeth

### Hysbysebu Ar-lein

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn parhau i gydweithio ar faterion hysbysebu ar-lein. Byddant yn edrych ar sut mae darparu rhagor o eglurder i gefnogi cystadleuaeth, canlyniadau sy'n ystyriol o breifatrwydd a thwf yn y sector pwysig hwn, gan ystyried datblygiadau yn y farchnad<sup>3</sup> a datblygiadau arloesol ers eu datganiad ar y cyd<sup>4</sup> yn 2021. Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar gydweithio mewn perthynas â Privacy Sandbox Google, ac ymgysylltu wrth i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ddatblygu ei chanllawiau i sefydliadau sy'n ystyried modelau 'cydsyniad neu dâl'.

- 
- 3 Er enghraifft, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn adolygu'r gofynion cydsyniad Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (PECR) i alluogi symud at fodelau hysbysebu ar-lein sy'n diogelu preifatrwydd. Bydd hyn yn cefnogi twf yn y sector hysbysebu gan wneud hysbysebu ar-lein sy'n gwella preifatrwydd yn hyfwr yn y farchnad. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd yn gwahodd sefydliadau i dreialu datrysiadau arloesol sy'n seiliedig ar ddata mewn amgylchedd rheoleiddio dan reolaeth yn ei flwch tywod rheoleiddiol estynedig.
  - 4 Ni chafodd ein cynnig yng nghynllun gwaith 24/25 y Fforwm i ddiweddar datganiad ar y cyd 2021 ei ddatblygu oherwydd newid yn amseriad newidiadau deddfwriaethol ym maes diogelu data. Byddwn yn parhau i gydweithio ar draws ein ffyrddau gwaith gwahanol ar farchnadoedd digidol, i adolygu ac i flaenoriaethu lle gallai fod angen rhagor o eglurder.

## Modelau sylfaen

Bydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn parhau i ymgysylltu â'i gilydd, ac â sefydliadau eraill, ar fodelau sylfaen deallusrwydd artiffisial. Mae hyn yn dilyn [cyhoeddiad](#) Mawrth 2025 ar fodelau mynediad agored a chaeedig, gan egluro'r rhyngweithio rhwng diogelu data, cystadleuaeth a chyfraith defnyddwyr i gefnogi busnesau sy'n ystyried datblygu a defnyddio'r dechnoleg hon.

## Cwmwl

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd yn trafod unrhyw faterion perthnasol sy'n ymwneud â marchnadoedd a gwasanaethau yn y cwmwl. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n berthnasol i Ymchwiliad Marchnad Gwasanaethau Cwmwl yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a diweddariad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'w Chanllawiau Cyfrifiadura Cwmwl.

## Cydweithio o dan y Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol

Bydd rheoleiddwyr y Fforwm yn parhau i gydweithio ar faterion sy'n effeithio ar farchnadoedd digidol yn y DU. Mae'r cydweithio ar farchnadoedd digidol yn seiliedig ar Ddeddf DMCC, sydd wedi sefydlu 'trefn cystadleuaeth marchnadoedd digidol' newydd i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd digidol sy'n symud yn gyflym, gan ddiogelu defnyddwyr a busnesau'r DU rhag arferion annheg neu niweidiol. Mae'r drefn wedi cael ei dylunio'n ofalus er mwyn i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd allu mabwysiadu dull pwrpasol sydd wedi'i deilwra'n dda er mwyn canfod a mynd i'r afael â niwed penodol, gan weithio mewn ffordd gyfranogol gyda chwmnïau perthnasol a'r ecosystem ddigidol ehangach. Ym mis Ionawr, dechreuodd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ymchwilio i weld a ddylid dynodi Google fel sefydliad sydd â statws strategol yn y farchnad (SMS) yng nghyswllt ei wasanaethau chwilio a hysbysebion chwilio cyffredinol, ac SMS Apple a Google mewn perthynas â darparu eu hecosystemau symudol (yr "ymchwiliadau ecosystemau symudol").

Mae'r Ddeddf DMCC yn cynnwys darpariaethau er mwyn gallu cydlynu mwy rhwng yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a rheoleiddwyr digidol eraill. Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi cyhoeddi [Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth](#) gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom (yn ogystal â Banc Lloegr a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus (PRA))) sy'n nodi sut mae'n rhoi darpariaethau cydlynu rheoleiddiol Deddf DMCC ar waith.

Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a rheoleiddwyr eraill y Fforwm eisoes yn cydgysylltu o dan y trefniadau newydd hyn. Mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom wedi sefydlu cyfarfodydd rheolaidd i adolygu materion sy'n ymwneud â marchnadoedd digidol i'w hystyried gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wrth iddo symud ymlaen i roi'r drefn newydd ar waith. Mae ymgysylltu hefyd yn digwydd ar faterion penodol o ddiddordeb cyffredin yn ystod yr ymchwiliadau cyntaf a lansiwyd gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Mae hyn yn cynnwys cydweithio parhaus rhwng yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ac Ofcom ar faterion sy'n ymwneud â marchnadoedd digidol a'r diwydiant newyddion fel rhan o ymchwiliad chwilio Google yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd; a chydweithio rhwng yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (a'r PRA) ar faterion sy'n ymwneud â waledi digidol fel rhan o ymchwiliadau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd o ran a ddylid dynodi bod gan Apple a Google statws strategol yn y farchnad (SMS) mewn perthynas ag ecosystemau symudol. Bydd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd yn cydweithredu fel y bo'n briodol pan allai ymchwiliadau o dan Drefn Cystadleuaeth Marchnadoedd Digidol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd – sy'n ymwneud â chwilio cyffredinol, hysbysebu drwy chwilio ac ecosystemau symudol – gyffwrdd â materion sy'n ymwneud â chyfundrefnau rheoleiddio, fel cludo data, mynediad at ddata, dewis defnyddwyr ac arferion dylunio.



# Diogelu Pobl Ar-lein

## Pensaernïaeth Dewis Ar-lein

Mae Pensaernïaeth Dewis Ar-lein a dylunio niweidiol yn dal yn feysydd allweddol i gyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm ganolbwyntio arnynt. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd wedi cyhoeddi [papur ar y cyd](#) yn flaenorol ar ddylunio niweidiol mewn marchnadoedd digidol ac maen nhw'n parhau i gydweithio i sicrhau arferion da yn y diwydiant. Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Ofcom ei adroddiad [Understanding Online Choices, Preferences, and Welfare](#), a oedd yn edrych ar effeithiolrwydd amrywiaeth o 'offer grymuso defnyddwyr' sydd wedi'u dylunio i helpu unigolion i wneud dewisiadau ar-lein sy'n cyd-fynd yn well â'u dewisiadau drwy hybu penderfyniadau mwy ystyriol. Mae'r adroddiad yn pwysleisio gwerth mawr bod rheoleiddwyr yn cydlynu eu dulliau o ran ymyriadau er mwyn grymuso defnyddwyr.

Drwy fynd ar drywydd rhagor o gydweithio ar Bensaernïaeth Dewis Ar-lein, bydd cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu pobl rhag patrymau tywyll ac arferion annheg ar-lein. Roedd ymatebwyr i'r cais am fewnbwn eleni wedi gofyn i'r Fforwm roi mwy o sylw i Bensaernïaeth Dewis Ar-lein, drwy dynnu sylw at ddisgwyliadau pob rheoleiddiwr o ran diogelwch drwy ddylunio, gan sicrhau bod negeseuon defnyddwyr yn cyrraedd safonau rheoleiddio a chydweithio â'i gilydd. Gan adeiladu ar ein gwaith presennol o rannu gwybodaeth yn fewnol, bydd y Fforwm yn adolygu'r prif groestoriadau rhwng rheoleiddio ar gyfer Pensaernïaeth Dewis Ar-lein; yn gweithio at fwy o gysondeb mewn diffiniadau o Bensaernïaeth Dewis Ar-lein a disgwyliadau'r diwydiant; ac yn edrych ar bosibilrwydd dylunio ar y cyd a defnyddio offer grymuso defnyddwyr.

## Twyll a Sgamiau

Wrth i dechnoleg barhau i ddatblygu, mae cyrff rheoleiddio sy'n aelodau yn dymuno gweld defnyddwyr yn cael eu diogelu rhag twyll a sgamiau, gyda mynediad at iawn priodol os bydd problemau'n codi. Mae mynd i'r afael â thwyll a sgamiau yn hanfodol er mwyn meithrin hyder defnyddwyr ac ymddiriedaeth mewn gwasanaethau ar-lein a thechnolegau newydd. Mae hyn yn flaenoriaeth i ymatebwyr i'r cais am fewnbwn.

Bydd y Fforwm yn ategu ymgysylltiad rheoleiddwyr presennol ag asiantaethau'r llywodraeth, rheoleiddwyr eraill a chyrrff rhyngwladol lle bo hynny'n briodol. Un maes trawsbynciol y mae diwydiant yn gofyn am esboniad amdano yw'r amgylchiadau lle caniateir rhannu data personol er mwyn mynd i'r afael â thwyll. Ym mis Tachwedd, [cyhoeddodd](#) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gyngor ymarferol i egluro sut gall sefydliadau rannu data'n gyfrifol er mwyn mynd i'r afael â thwyll a sgamiau, ac ym mis Gorffennaf [cyhoeddodd](#) Ofcom bapur yn edrych ar y mesurau y gall cwmnïau eu cymryd i liniaru niwed ffugiadau dwfn. Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi [lansio camau gweithredu wedi'u targedu](#) yn erbyn dylanwadwyr ariannol.

Bydd yr ymgysylltu'n parhau rhwng aelodau'r Fforwm, rheoleiddwyr eraill a'r llywodraeth i rannu gwybodaeth sy'n hwyluso ymdrechion effeithiol i liniaru twyll.

Ochr yn ochr â hyn, bydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol ac Ofcom yn parhau i weithio'n agos gyda'i gilydd ar eu hamcan cyffredin sef lleihau cyswllt defnyddwyr â thwyll ar-lein. Eleni, byddant yn canolbwyntio ar sicrhau bod arbenigedd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn cynigion ariannol anghyfreithlon yn cyfrannu at ddatblygu gwaith Ofcom yn y dyfodol, gan gynnwys datblygu [Cod Ymarfer ar Hysbysebu Twyllodrus](#), a fydd yn cael ei ddatblygu o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

## Diogelwch Ar-lein a Diogelu Data

Bydd prosiect Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar ddiogelwch ar-lein a diogelu data yn parhau i gyflawni ein hymrwymiad i sicrhau cysondeb a hyrwyddo cydymffurfedd â'r ddwy drefn. Gan adeiladu ar y datganiad o gydweithrediad presennol, mae gweithgareddau ar gyfer 2025/26 yn cynnwys:

- Cyhoeddi trydydd datganiad ar y cyd yn ystod hydref 2025, gan roi eglurder i wasanaethau am gydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch ar-lein a diogelu data wrth reoli risgiau i blant.
- Adeiladu ar ein gwybodaeth am faterion trawsbynciol diogelwch ar-lein a diogelu data a chydlynu ein hymgysylltiad â chwmnïau sydd o ddiddordeb i bawb.
- Ymgysylltu ar Godau Ymarfer a chanllawiau Diogelwch Ar-lein Ofcom.
- Cydweithio ar ganllawiau technolegau diogelwch a diogelu data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Nod y cydweithrediad hwn yw codi hyder defnyddwyr gwasanaethau ar-lein y bydd eu diogelwch a'u preifatrwydd yn cael eu diogelu. Ar ben hynny, fel yr amlinellir yn [Niweddariad Strategol Marchnadoedd Digidol](#) Ofcom, mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ac Ofcom yn cydweithio i reoli'r rhyngweithio rhwng diogelwch ar-lein a'r drefn marchnadoedd digidol sydd o blaid cystadleuaeth.

## Rheoleiddio Gwasanaethau Ariannol a Diogelu Data

Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn deall pa mor bwysig yw bod busnesau'n deall gofynion eu trefniadau.

Maen nhw'n cydweithio i gefnogi cwmnïau i gynnal eu rhwymedigaethau cyfreithiol Dyletswydd i Ddefnyddwyr a diogelu data wrth sôn wrth gwsmeriaid am gynilion, buddsoddiadau manwerthu a phensiynau.<sup>5</sup>

Bydd gwaith ar y cyd yn parhau gyda digwyddiad bwrdd crwn gydag arweinwyr y diwydiant ar 9 Mai. Bydd yn canolbwyntio ar feysydd o ansicrwydd rheoleiddiol i ddiwydiant o ran mabwysiadu deallusrwydd artiffisial ac arloesi ehangach, sut gall Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol gydweithio gyda'r diwydiant i roi mwy o sicrwydd rheoleiddiol, a nodi lle mae angen mwy o gymorth rheoleiddiol o ran diogelu data a rheoleiddio ariannol.

Bydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol hefyd yn parhau i ymgysylltu ar y Ddyletswydd i Ddefnyddwyr wrth i'r gwaith ar yr Adolygiad o Ffiniau Canllawiau Cyngor<sup>6</sup> ddatblygu a thorri ar draws.

---

5 [Llythyr ar y cyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol i Gymdeithas Cyllid a Chymdeithasau Adeiladu y DU | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; Datganiad ar y cyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Rheoleiddiwr Pensiynau i gwmnïau buddsoddiadau manwerthu a darparwyr pensiynau | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#)

6 [CP24/27: Advice Guidance Boundary Review – proposed targeted support reforms for pensions](#)

# Meithrin Gallu'r Rheoleiddiwr

## Deallusrwydd Artiffisial Rheoleiddiol a Datrysiadau Digidol

Roedd Cynllun Gweithredu Cyfleodd Deallusrwydd Artiffisial y llywodraeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwella gallu'r rheoleiddiwr, a chawsom gynigion yn y cais am fewnbwn y dylai'r Fforwm fynd ati i gydlynu sut mae'r cyrff rheoleiddio sy'n aelodau yn mabwysiadu deallusrwydd artiffisial. Mae ein holl gyrrff rheoleiddio sy'n aelodau yn awyddus i wella effeithlonrwydd gweithredol drwy ddefnyddio technoleg, yn ogystal â chyfyngu ar gost a chymhlethdod cydymffurfio â rheoliadau.

Wrth i bob un o'n cyrff rheoleiddio sy'n aelodau wneud cynnydd o ran mabwysiadu technolegau rheoleiddio a goruchwylio, mae ffrwd waith datrysiadau rheoleiddiol y Fforwm yn eu cefnogi drwy rannu'r hyn a ddysgwyd a'r arferion gorau ar y technolegau hyn.

Gan fod sawl peth cyffredin rhwng yr offer mae pob rheoleiddiwr yn eu hadeiladu, yn eu profi ac yn eu mabwysiadu, mae rhannu'r gwersi a ddysgwyd yn gallu gwneud byd o wahaniaeth i alluogi mabwysiadu offer newydd yn gyflym ar raddfa fawr, gan arbed costau ar yr un pryd.

## Sgiliau a Galluoedd

Un o nodau craidd y Fforwm, ac elfen allweddol o'n gweledigaeth tair blynedd, yw cefnogi cyrff rheoleiddio sy'n aelodau i uwchsgilio staff i roi rheoleiddio digidol ar waith yn effeithiol. Rydym yn gwneud hyn drwy ddarparu sesiynau uwchsgilio, hwyluso secondiadau rhwng cyrff rheoleiddio sy'n aelodau a sefydliadau ehangach, a chefnogi cynlluniau rheoleiddwyr i raddedigion. Yn 2025/26, bydd y Fforwm yn parhau i gynnal gweminarau sgiliau deallusrwydd artiffisial a digidol i staff drwy gyfres o siaradwyr mewnol ac allanol.

Eleni, bydd y Fforwm, ar y cyd â Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN), yn hwyluso dysgu traws-reoleiddwyr drwy raglen fentora sgiliau digidol sydd newydd gael ei lansio, er mwyn uwchsgilio cydweithwyr ym maes rheoleiddio digidol a chryfhau rhwydweithiau rhwng staff sy'n gweithio ar faterion digidol ar bob lefel o gyrrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm. Ar ben hynny, bydd dau Gymrawd Ymchwil yr Academi Brydeinig yn ymuno â'r Fforwm am flwyddyn i gryfhau gallu ymchwil y Fforwm.

## Rhannu Gwybodaeth

Mae rhannu gwybodaeth yn allweddol i sicrhau bod rheoleiddwyr yn defnyddio arbenigedd ar y cyd. Mae'n cynyddu effeithlonrwydd rheoleiddiol ac yn gallu lleihau'r baich cydymffurfio ar gwmnïau drwy lai o ddyblygu. Fel rhan o'n rhaglen waith ar gyfer 2025/26, rydym yn bwriadu adolygu pyrth deddfwriaethol ac arferion rheoleiddio yng nghyswllt rhannu gwybodaeth a data, er mwyn sicrhau bod rheoleiddwyr yn gallu rhannu gwybodaeth a setiau data pan fydd hynny'n effeithlon, gan ddiogelu gofynion cyfrinachedd cyfreithiol ac ymarferol priodol ar yr un pryd.

## Ymgysylltu

Yn fwy nag erioed, rydym yn ymwybodol bod rheoleiddio digidol effeithiol yn gofyn am sgwrs rhwng pawb dan sylw: y llywodraeth a rheoleiddwyr, y diwydiant a chyrff masnach, cynrychiolwyr defnyddwyr a chymdeithas sifil, academyddion ac eraill. Mae natur ryngwladol marchnadoedd digidol a deallusrwydd artiffisial yn golygu bod deialog ryngwladol hefyd yn hollbwysig.

Mae'r Fforwm yn awyddus i barhau i fod mor dryloyw ac atebol â phosibl yn ei waith ei hun, gan wrando ar amrywiaeth eang o safbwyntiau ar yr un pryd. O ganlyniad, byddwn yn cynnal ein momentwm uchel o weithgarwch ymgysylltu a chyfathrebu yn 2025/26, gan arddangos ein gwaith ein hunain a chynnig llwyfan i drafod gweithgareddau rheoleiddio digidol ein haelodau. Mae ein profiad wedi dangos y gwerth y gall y Fforwm ei ddarparu fel cynullydd trafodaethau sy'n cwmpasu cylchoedd gwaith rheoleiddio a chydymffurfio – rydym yn awyddus i gynnal ac adeiladu ar y rôl cynnull honno yn y flwyddyn i ddod.

## Regulators

Rydym yn bwriadu gweithio mwy gyda rheoleiddwyr nad ydynt yn aelodau eleni, gan weithio mewn partneriaeth â nhw i gyflawni ar feysydd sydd o ddiddordeb cyffredin. Rydym yn cynnal cyfarfod bwrdd crwn chwarterol gyda rheoleiddwyr, gan ddod â 13 o gyrff rheoleiddio nad ydynt yn aelodau at ei gilydd i rannu arbenigedd ac arferion gorau.

## Diwydiant a chymdeithas sifil y DU

Bydd y Fforwm yn parhau i arwain a chymryd rhan mewn trafodaethau ar reoleiddio digidol. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddigwyddiadau rheolaidd, cyfarfodydd bwrdd crwn pwrpasol a sgysiau unigol – gan gydweithio ag amrywiaeth eang o sefydliadau yn y diwydiant a'r gymdeithas sifil ledled y DU i wella dealltwriaeth, casglu gwybodaeth a chynyddu ein heffaith.

## Y Llywodraeth a'r Senedd

Byddwn yn cynnal ein perthynas gref â'r llywodraeth ar wahanol lefelau, gan weithredu fel galluogwr ar gyfer ymgysylltu unedig rhwng y llywodraeth a'n holl aelodau lle bo hynny'n briodol. Ar ben hynny, byddwn yn parhau i ymgysylltu â Seneddwyr a Phwyllgorau perthnasol y DU ac yn datblygu ein perthynas â nhw. Er enghraifft, byddwn yn siarad yn y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Ddeallusrwydd Artiffisial ym mis Mai 2025.

## Ymgysylltu Rhyngwladol

Mae cydweithio rhyngwladol yn fuddiol ac yn hanfodol ar gyfer rheoleiddio digidol effeithiol i fynd i'r afael â natur fyd-eang marchnadoedd, technolegau a risgiau digidol. Drwy ymgysylltu â'n cymheiriaid rhyngwladol, gall cyrff rheoleiddio sy'n aelodau o'r Fforwm rannu gwybodaeth, gweithio i gysoni safonau ac ystyried materion trawsffiniol fel preifatrwydd data, niwed ar-lein, cystadleuaeth a deallusrwydd artiffisial. Mae'r fframwaith hwn hefyd yn hyrwyddo arloesedd drwy ddarparu mwy o eglurder i gwmnïau sy'n gweithredu'n rhyngwladol, pontio gwahaniaethau rheoleiddiol trawsffiniol lle bo hynny'n bosibl, ac atgyfnerthu ymddiriedaeth defnyddwyr drwy fwy o gydlyniaeth.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rheoleiddwyr rhyngwladol i hyrwyddo manteision cydweithredu traws-reoleiddiol a thrafod materion traws-reoleiddiol sylweddol drwy ein gwaith gyda'r Rhwydwaith Rhyngwladol ar gyfer Cydweithredu ar Reoleiddio Digidol. Bydd meysydd ffocws ychwanegol yn cynnwys ymgysylltu â'r Rhwydwaith Cystadleuaeth Rhyngwladol ac awdurdodau diogelu data yn y G7.

Rydyn ni'n awyddus i glywed gennych am effaith gwaith y Fforwm: cysylltwch â [drcf@ofcom.org.uk](mailto:drcf@ofcom.org.uk)

Rydyn ni hefyd yn awyddus i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â rhanddeiliaid am ein gwaith parhaus. Rydym nawr yn cyhoeddi cylchlythyr y Fforwm bob dau fis: cysylltwch â'r cyfeiriad e-bost uchod i gael eich ychwanegu at y rhestr ddsbarthu.

Mae croeso i chi ddilyn ein [tudalen LinkedIn](#), a gallwch fynd [i'n gwefan yma](#).

